

Cyngor Cymuned Llanelian (315)

Cofnodion cyfarfod Gorffennaf 2, 2019 a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Penysarn am 7yh.

Presennol: Elfyn Hughes, Thomas Jones, Ian Evans, Glenys Jones, Gordon Hayes, Carol Whitaker, Helen Hughes, Hefina Williams, John Griffiths, Carli Evans Thau (Clerc)

Ymddiheuriadau: Dafydd Griffiths, Cyng. Aled Jones, Cyng. Richard Jones

Yn absennol: David Gerrard, Cyng. Richard Griffiths

- 1** **Croeso**
Cadeiriwyd y cyfarfod gan Elfyn Hughes, ac fe groesawyd pawb i'r cyfarfod.
Cyn cychwyn y cyfarfod, cadarnhawyd bod yr aelodau yn hapus bod y cyfarfod wedi ei alw'n gywir a bod cworwm yn bresennol.
- 2** **Datgan Diddordeb**
Dim
- 3** **Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**
Derbyniwyd y cofnodion 4/9/2019 yn gywir cynnig Carol Whitaker, eilio Hefina Williams.
Derbyniwyd y cofnodion 26/6/2019 yn gywir cynnig Ian Evans, eilio John Griffiths
- 4** **Materion yn Codi o'r Cofnodion**
- 4.1 **Materion Prifffyrdd** – nodwyd bod offer monitro cerbydau wedi ei osod ar Ffordd y Rhald a bod rhai tyllau wedi llenwi yn yr ardal, mae rhai tyllau yn parhau ar Allt Nebo. Cytuno cysylltu a CSYM i ddiolch am gynnal yr arolwg a gofyn iddynt rannu y canlyniadau cyn gynted a phosib gan nodi bydd y cyngor cymuned yn parhau i fonitro'r sefyllfa. Cytuno gofyn os oedd bwriad cael camera cyflymder ar Ffordd y Rhald o bryd i'w gilydd, cytuno gofyn hefyd am gadarnhad pa bryd fyddai'r arwyddion yn eu lle yn dynodi ble mae'r llwybr cyhoeddus yn croesi'r ffordd osgoi, a hefyd yr arwydd ychwanegol ger yr ysgol CT
- 4.2 **Llwybrau Cyhoeddus** – dim diweddariad
- 4.3 **Baw Ci** – dim ymateb hyd yma, nodwyd nad oedd y sefyllfa wedi gwella er y boscus dosbarthu bagiau. Y clerch i drefnu cyfarfod a'r warden gwn cyn gynted a phosib CT
- 4.4 **Gadfa Newydd** – cafwyd gadarnhad gan CSYM eu bod wedi derbyn cwynion am y garafan a bod yr adain gynllunio yn edrych i fewn i'r mater.
- 5** **Adroddiadau Pwyllgorau**
- 5.1 **Caeau Chwarae** – cadarnhawyd derbyn adroddiadau diweddaraf Medwyn Owen yn dilyn ei archwiliad o'r caeau chwarae. nodwyd bod y ffens ym Maes Llwyfo wedi ei drin bellach a'r mainc newydd wedi ei osod. Cafwyd wybod bod Partneriaeth Llwyfo am brynnu paent ac adnoddau i'r Clwb leuenctid baentio a thwtio'r ardal. Diolchwyd i'r Clwb leuenctid am eu gwaith.
- 5.2 **Llithrfa** – mae ambell un yn parhau i adael y postyn allan o'i le ac mae hyn yn achosi problemau. Gofynnwyd i'r clerch archebu banner Cymru cyn gynted a phosib ar gyfer y polyn ar y traeth. CT
- 5.3 **Mynwent** – nododd y clerch bod y gwaith o ddiogelu beddfeini a gosod giat newydd ar y gweill ar gyfer mynwent Eilian. Mae dau mainc newydd wedi eu gosod yn yr ardal. cadarnhawyd bod y clerch wedi cysylltu a'r Henaduriaeth ynglyn a'r llwybr a'r clawdd ym mynwent Bosra. CT
- 5.4 **Cyllid a Pholisi** – Dim diweddariad
- 5.5 **Cronfa Ty Moel Isaf (1717-1985)** – cadarnhawyd mai'r un aelodau oedd yn arwyddo sieciau ar gyfer cyfrifon banc TMI ag oedd a'r hawl i arwyddo sieciau'r Cyngor. Ni fu CT

gwrthwynebiad. Cymeradwywyd yr erthygl i'r Arwydd i hyrwyddo'r gronfa. Y clerch i'w gyfieithu a'i arddangos ar y wefan a'r hysbysfwrdd.

- 5.6 Pwyllgorau Allannol** – Cafwyd adroddiad gan Ian Evans yn dilyn cyfarfod diwethaf Pwyllgor Ardal Un Llais Cymru. Mae'n debyg nad oes unrhyw gyngor led led yr ynys wedi bod yn derbyn penderfyniadau cynllunio gan CSYM. Roedd y pwyllgor am gysylltu a'r adran gynllunio oherwydd bod y penderfyniadau yn bwysig, a hefyd yn gyfle i aelodau ddysgu am resymeg pam fod ceisiadau wedi eu cymeradwyo/gwrthod.

Cafwyd wybod bod Llywodraeth Cymru wedi datgan na fyddai treth cyngor yn ddyledus ar doiledau cyhoeddus mwyach.

Daethpwyd at sylw'r pwyllgor bod cais y Grid Cenedlaethol ar gyfer peilonau wedi ei ychwanegu at gais Horizon Wylfa Newydd, ac nad oedd y prosiect wedi ei dynnu yn ol fel yr argraff a roddwyd gan y cwmni. Bydd y Pwyllgor Ardal yn monitro'r sefylla ynghyd a'r Grwp sydd yn gwrthwynebu peilonau ar yr ynys.

Cadarnhawyd bod nifer o ddeunyddiau hyfforddi ar gael ar wefan Un Llais Cymru yn rhad ac am ddim i aelodau erbyn hyn.

6 Cynllunio

6.1 Ceisiadau –

- Bryn Haul, Llaneilian (HHP/2019/155) – dim gwrthwynebiad
- 2 Llanfoi Llaneilian (LBC/2019/24) – cefnogi
- Twrllachiad, Nebo (FPL/2019/139) – dim gwrthwynebiad

CT

6.2 Penderfyniadau – dim diweddariad

7 Materion Ariannol

7.1 Taliadau

Cymeradwywyd y taliadau canlynol –
£93.44 Medwyn Owen (arolygon caeau chwarae)
£293.46 Carli Evans Thau (cyflog)
£256.40 Carli Evans Thau (costau Ebrill – Mehefin)

7.2 Ceisiadau am Arian - Ni fu cais am gefnogaeth.

7.3 Adroddiad Chwarterol – dosbarthwyd adroddiad yn dangos incwm a gwariant y cyngor dros y tri mis cyntaf ochr yn ochr a'r gyllideb am y flwyddyn. Diolchwyd i'r clerch am baratoi'r adroddiad.

7.4 Archwiliad – dosbarthwyd copi o adroddiad manwl yr archwiliwr mewnol i bawb oed dyn bresennol. Roedd yr aelodau wedi siomi bod cyfarfod ychwanegol wedi gorfod cael ei drefnu gan nad oedd yr archwiliad wedi ei gwblhau mewn pryd. Nid oedd bai ar y clerch am hyn. Bydd penodi archwiliwr mewnol ar gyfer y flwyddyn yma (2019/20) pan fydd gosod y gyllideb ar gyfer y flwyddyn nesaf (2020/2021).

8 Iechyd a Diogelwch

Cydnabod derbyn ardoddiadau Medwyn Owen ar y caeau chwarae.

9 Wylfa Newydd

Dim diweddariad

10 Gohebiaeth

10.1 Fforwm Cyswllt Sirol – bydd Ian Evans yn mynychu ar ran y Cyngor, cytuno gofyn i Dafydd Griffiths fel ail gynrychiolydd.

INE
DG

10.2 Drych ar Gyffordd - daw cais gan drigolyn am ddrych ar gyffordd Lon Tyddyn Waen. Mae'r unigolyn eisioes wedi cysylltu a'r adran briffyrdd yn Llangefni. Cytuno disgwyl ymateb y swyddogion.

- 10.3 Moderneiddio Ysgolion** – cafwyd gadarnhad gan CSYM na fydd unrhyw ymgynhoriad ar y ddarpariaeth addysg yn ardal Amlwch yn disgwydd y flwyddyn addysgol hon (2018/19)
- 10.4 Pencampwr y Gymraeg** – cytuno byddai Hefina Williams yn parhau yn y rol i hynu'r iaith o fewn y Cyngor.
- 10.5 Ymgynhoriad Polisi Gosod Tai Cyffredin CSYM** – cadarnhawyd bod y wybodaeth wedi ei anfon allan i'r aelodau drwy ebost cyn y cyfarfod. Roedd yr aelodau wedi synnu bod angen ymgynghori o gwbl a ddylai cyswllt lleol gael ei ystyried wrth osod tai cyffredin. Teimlai'r aelodau yn gryf y dylai pobl lleol wedi byw yn yr ardal, gyda theulu agos yn yr ardal, neu wedi gweithio yn yr ardal am gyfnod o bum mlynedd neu fwy gael blaenoriaeth wrth osod ty. Dylid hefyd ystyried y diffiniad o 'lleol' wrth ddechrau gyda'r gymuned ei hun cyn ystyried y ward etholiadaol ac yna'r sir h.y. blaenioraethu pobl Llaneilian, yna Twrcelyn ac yna Ynys Mon. rydym yn ddiweddar wedi cydweithio gyda Grwp Cynefin I sicrhau hyn ar gyfer stad newydd o dai cymdeithasol - Stad Dublin ym Mhenysarn. Mae pwysigrwydd cymuned a chefnogaeth teulu a ffrindiau yn amhrisiadwy, ac mae nifer o bobl yn dibynnu ar y gefnogaeth yma yn eu bywyd pob dydd. CT
- 11 Unrhyw Fater Arall**
- 11.1** Dymuna'r aelodau longyfarch y clwb ieuencid am eu hymdrechion codi arian dros y penwythnos.
- 11.2** Nodwyd nad oedd y siop yn gwerthu stampiau Cymreig dim ond y rhai a lun y Frenhines. Cytuno monitro'r sefyllfa.
- 11.3** Daw cwestiwn pam fod dau bin ger Porth Eilian a dim un yn Dulas. Nodwyd byddai mynediad i lori i wagio bin yn Dulas yn annodd, a bod defnydd yn Llaneilian yn cadarnhau'r angen am ddau fin.
- 11.4** Llecyn tir tu ol i Stad Dublin – cytuno cysylltu a Grwp Cynefin i ofyn iddyn twtio a hadu'r llecyn gan ei bod wedi ei ddefnyddio tra yn adeiladu'r tai. CT
- 11.5** Coed a meinciau – nodyd y byddai coed ac ambell i mainc yn gwella'r mynediad i fewn i'r pentref. Y clerc i gysylltu a CSYM i weld a fyddai hyn yn bosib ar y llecyn tir ar hyd y llwybr beicio tuag at Marie Curie. CT
- 11.6** Cynnal a Chadw – cytuno gofyn i Richard Edwards gael golwg ar y cysgodfan bws ger Marie Curie a Gardd Top Rallt cyn gynted a phosib. CT
- 11.7** Hoffai'r Cadeirydd weld y Cyngor a'r gymuned yn cydweithio mwy. Gofynnwyd am syniadau sut i hybu gwaith y cyngor i'r gymuned lleol megis panad a sgwrs mewn noson agored. Trafodwyd lleoliad yr hysbysfwrdd a faint o bobl sydd yn ei defnyddio.
- 11.8** Di-ffibriwleiddiwr – cafwyd wybod bod posib cael peiriant am ddim ar gyfer traeth Eilian ond bod angen talu £450 am y bocs. Cytuno yn unfrydol mynd ymlaen a'r prosiect. CT
- 12 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**
Bydd y cyfarfod cyffredinol nesaf Medi 10, 2019 am 7 o'r gloch.

Bu'r cyfarfod orffen am 20.30

**Arwyddwyd
Elfyn Hughes
Cadeirydd**